O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 777 (Cy. 104)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pont-dôl-goch, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*9 Mawrth 2012*
Yn dod i rym	*19 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caersŵs — Machynlleth (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Mawrth 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pont-dôl-goch, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 08:00 o'r gloch ar 19 Mawrth 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o'r gefnffordd ym Mhont-dôl-goch yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt 190 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r U2581 i bwynt 290 o fetrau i'r de o ganolbwynt y gyffordd honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.